
# Noson y Cwis Mawr



## Pecyn y cwisfeistr

**Yn cynnwys:**

- Sgript y cwisfeistr
- Cwestiynau ac atebion y cwis
- Cwestiynau datglwm
- Syniadau hwyliog am ragor o rowndiau

tearfund

**Helo – a chroeso i becyn y cwisfeistr! Y bwriad yw gwneud gwaith y cwisfeistr – neu'r gwis-feistres – ar *Noson y Cwis Mawr* yn hwyl ac yn hawdd.**

# Sgript y cwisfeistr

***Gallwch ddefnyddio'r sgript isod fel canllaw i'ch helpu i gyflwyno'r cwis. Cewch ei darllen air am air, addasu tipyn arni – neu wneud rhywbeth hollol wahanol! Cyn dechrau, gofalwch fod pawb yn gallu'ch gweld a'ch clywed.***

**Croeso**

Helo a chroeso i Noson y Cwis Mawr! **[Eich enw]** ydw i. Dw i'n falch eich bod chi wedi ymuno â ni – dw i'n siŵr y cawn ni noson wych.

Heno, rydyn ni'n rhan o rywbeth arbennig. Ledled Prydain, mae cannoedd o eglwysi a miloedd o bobl yn gwneud yr un peth â ni; dod at ei gilydd i gefnogi achos ardderchog.

Elusen Gristnogol sy'n benderfynol o roi diwedd ar dlodi eithafol ac anghyfiawnder yw Tearfund. Mae tlodi'n dinistrio bywydau ac nid yw'n rhan o gynllun Duw ar gyfer y byd, ond gallwch chi helpu i newid hynny. Mae Tearfund yn partneru ag eglwysi, cymunedau ac unigolion ledled y byd ac yn eu galluogi i helpu i sicrhau bod pawb yn cael y cyfle i gyflawni'r potenial a gawsant gan Dduw. Diolch i ddigwyddiadau fel hyn a phobl fel chi y mae'r gwaith hanfodol hwn yn bosibl.

***Sylwch: Chwaraewch y fideo Introduction to Transforming Communities o'r pecyn adnoddau sy'n esbonio mwy am y ffordd y mae Tearfund yn gweithio ledled y byd.***

Mae'r cwis yn cynnwys **[nodwch faint o rowndiau rydych wedi penderfynu eu gwneud]** rownd, â chwech o gwestiynau ym mhob un, ar y themâu hyn **[gallwch ddileu neu ychwanegu rhai yn ôl yr angen]**: ffilmiau a theuluoedd enwog, caws, daearyddiaeth, byd natur, llenyddiaeth, chwaraeon, a gwyliau mawr y byd.

Gawn ni egwyl fach hanner ffordd trwy'r cwis. Cyn hynny, gawn ni wylio ffilm am waith Tearfund ym Malawi. Bydd pob ceiniog a godir heno'n mynd tuag at drawsnewid cymunedau a helpu i roi diwedd ar dlodi eithafol. Rhowch fel y gallwch chi. Gallwch gyfrannu trwy fynd i'n tudalen JustGiving **[darllenwch yr URL / dangoswch y cod QR]**.

Diolch. Dyna ddigon o gyflwyniad – ymlaen â'r cwis!

***Sylwch: Ar ôl pob rownd, rhowch amser i'r timau gyfnewid eu taflenni atebion neu eu marcio eu hunain a chyhoeddi'r sgoriau. Mae croeso i chi gyhoeddi'r sgoriau wrth fynd ymlaen os liciwch chi.***

**Egwyl hanner amser**

Nawr, rŷn ni'n mynd i gael gwybod mwy am y rheswm pam rŷn ni yma heno. Cyn cael egwyl, rŷn ni'n mynd i glywed stori o Malawi i'n hatgoffa ni pam rŷn ni'n gwneud hyn. Wna i rannu'r ddolen i'n tudalen JustGiving gyda chi nawr a'ch annog i roi'n hael os gallwch chi. Bydd unrhyw swm, bach neu fawr, yn gwneud gwahaniaeth enfawr i bobl sy'n byw mewn angen mawr.

**Gwylio ffilm am waith Tearfund ym Malawi**

Gawn ni egwyl nawr. Cerwch i nôl bwyd neu ddiod **[os oes ar gael]**, ewch am dro bach, a pheidiwch â chael eich temtio i gladdu'ch trwyn mewn encyclopaedia.

**Yr ail hanner**

Croeso nôl! Gobeithio'ch bod chi'n barod am weddill y noson. Tra'ch bod chi'n paratoi i ailddechrau, fe alla i ddweud wrthych chi faint o arian sydd wedi'i godi hyd yma – mae'n ardderchog – **£[xxx]** o'n cwis ni. Diolch o galon! Os nad ydych chi wedi cyfrannu'n barod, efallai yr hoffech chi wneud hynny nawr.

Reit, dyma'r rownd nesaf!

**Diwedd y cwis**

A dyna ni – dyna ddiwedd ar y cwestiynau! Gewch chi sgwrsio ymhlith eich gilydd tra byddwn ni'n cyfrif y sgoriau.

**Y sgoriau**

***Sylwch: Chi sydd i benderfynu a ydych chi'n enwi'r timau i gyd yn eu trefn neu ddim ond y tri uchaf, fel isod.***

Wel, wna i ddim o'ch cadw chi ar bigau'r drain. Dyma'r sgoriau. Drumroll plis...

Yn drydydd, mae **[enw'r tîm]**. Da iawn, chi!

Yn ail, **[enw'r tîm]**. Mor agos ond eto mor bell!

Ac yn gyntaf, yr enillwyr heno yw: **[enw'r tîm]**! Llongyfarchiadau!

Da iawn, bawb. Rhowch glap i chi'ch hunain.

Rŷn ni mor ddiolchgar eich bod wedi gallu dod heno. Gobeithio'ch bod wedi cael noson werth chweil. Diolch i'ch haelioni chi, rŷn ni wedi codi **£[xxx]** hyd yma. Mae'n mynd i wneud gwahaniaeth enfawr i lawer o bobl o gwmpas y byd. Gallwch gyfrannu at Tearfund o hyd trwy fynd i'n tudalen JustGiving **[darllenwch yr URL / dangoswch y cod QR]**.

Tan y tro nesaf, hwyl fawr!

# Cwestiynau'r cwis



## 1 Pwy sy'n perthyn?

1. Beth oedd enw brawd hŷn David Attenborough oedd yn enwog fel actor a chyfarwyddwr ffilmiau?

2. Roedd tad Jane a Peter Fonda yn actor enwog. Beth oedd ei enw?
   A: Harry B: Henry C: Peter Snr

3. Beth yw enwau'r fam a'r ferch a fu'n cyd-serennu yn *Maid* – y fam yn enwog am *Four Weddings and a Funeral* a'r ferch am *Once Upon a Time in Hollywood*?

4. Mae gan y canwr Steve Eaves dri o blant sy'n amlwg yn eu meysydd. Beth maen nhw fwyaf adnabyddus am ei wneud?
   A: Newyddiadurwr, awdur a pheldroediwr
   B: Cantores, awdur a dylanwadwr
   C: Cantores, actores a drymiwr

5. Pa efeilliaid enwog o fyd ffasiwn fu'n sêr ffilm a theledu pan oedden nhw'n blant ac sydd â chwaer iau a ymunodd â'r Marvel Universe fel Wanda Maximoff?

6. Mae Fergus, Farkle a Felicia yn dripledi i bâr enwog mewn nifer o ffilmiau animeiddio. Beth yw enw masnachfraint (franchise) y ffilmiau?

## 2 Rownd haws am gaws?

1. Ym mha sir yn nwyrain Lloegr mae pentref Stilton a roddodd ei enw i'r caws glas adnabyddus?
   A: Swydd Lincoln B: Swydd Caergrawnt
   C: Swydd Bedford

2. Beth yw enw'r caws o Ogledd Swydd Efrog y mae'r ddeuawd *claymation* Wallace a Gromit mor hoff ohono?

3. Pa gaws poblogaidd, sy'n cael ei fwyta ledled y byd, sydd wedi'i enwi ar ôl ceunant enwog yn y Mendip Hills yn Lloegr?

4. Yn 2017, cyflwynwyd blasau newydd, yn cynnwys Red Leicester, i fath o snac gan Jacob's – Beth yw enw'r snac?

5. Pa gaws gwyn briwsionllyd â blas braidd yn siarp gafodd ei enwi ar ôl tref yng Nghwm Rhymni sydd â chastell enwog?

6. Mae gan gaws Wookey Hole flas cryf, tebyg i gnau, gan ei fod yn cael ei aeddfedu mewn... beth?
   A: Ogofâu B: Selerydd C: Mwg

## 3 Heb ddŵr heb ddim

1. Pa un yw cefnfor mwyaf y byd?

2. Pa afon yng ngogledd-ddwyrain Affrica sy'n cael ei chyfrif gan amlaf yn afon hiraf y byd?

3. Pa un o'r rhain nad yw'n un o'r Llynnoedd Mawr yng Ngogledd America?
   A: Huron B: Michigan C: Champlain

4. Beth yw enw afon hiraf yr Alban? – mae'n llifo trwy Glasgow.
   A: Tay B: Gwy (Wye) C: Clud (Clyde)

5. Faint o wyneb y ddaear sydd wedi'i orchuddio â dŵr?
   A: 51% B: 71% C: 81%

6. Pa un o'r llynnoedd isod sydd heb ei greu gan bobl?
   A: Lake Superior B: Lake Mead C: Lake Nasser

# Cwestiynau'r cwis



## 4 Cwestiynau cofio

1. Ym mha flwyddyn ddigwyddodd y protestiadau enwog ond trist o blaid democratiaeth yn Sgwâr Tiananmen, Beijing, Tsieina?
   A: 1984 B: 1989 C: 1992

2. Am sawl blwyddyn fuodd Nelson Mandela yn garcharor ar Ynys Robben, Table Bay, De Affrica?
   A: 8 B: 18 C: 25

3. Ble yn yr Unol Daleithiau mae pont y Golden Gate?
   A: San Francisco B: Efrog Newydd C: San Jose

4. Beth yw enw dinas hynafol yr Incas, yn uchel ym mynyddoedd yr Andes, Periw, sy'n dangos bod gwareiddiad blaengar iawn yn ffynnu yno ymhell yn ôl?

5. Beth yw enw'r llwyfandir ger Cairo, yr Aifft, lle mae'r pyramidiau a'r Sffincs?

6. Pa fath o wisg nofio sydd wedi'i henwi ar ôl casgliad o ynysoedd yn y Môr Tawel, lle cynhaliodd yr Unol Daleithiau lawer o brofion ar arfau niwclear yn yr 1940au a'r 1950au?

## 5 Byd natur: pysgodyn neu aderyn?

Dyma rownd i brofi'ch gwybodaeth am bysgod ac adar. Beth yw'r ateb – pysgodyn neu aderyn?

1. Mae'r *walleye* neu'r *Sander vitreus* yn greadur melyn sy'n frodorol i'r rhan fwyaf o Ganada a gogledd yr Unol Daleithiau. Pysgodyn neu aderyn?


2. Mae'r *mahi-mahi*, neu'r *dorado*, yn byw mewn ardaloedd tymherus, trofannol ac isdrofannol ledled y byd. Pysgodyn neu aderyn?

3. Gogledd yr Alban yw'r unig le ym Mhrydain lle mae'r *whimbrel* yn magu. Mae rhannau uchaf y corff yn frown a'r rhannau isaf yn eithaf gwyn. Pysgodyn neu aderyn?

4. Enw arall ar y *John Dory* yw'r St Pierre. Pysgodyn neu aderyn?

5. Cafodd y pibydd brith neu'r *willet* ei ddisgrifio'n ffurfiol yn 1789 gan Johann Friedrich Gmelin, naturiaethwr o'r Almaen. Pysgodyn neu aderyn?

6. Gwelir y *crawciwr* mewn aberoedd rhwng Massachusetts a Gwlff Mecsico. Pysgodyn neu aderyn?



# Cwestiynau'r cwis



## 6 Llenyddiaeth: Austen neu ABBA?

Ai o waith y nofelydd Jane Austen neu o un o ganeuon ABBA mae'r dyfyniad yn dod?

1. 'I do not want people to be very agreeable, as it saves me the trouble of liking them.'
2. 'The winner takes it all, the loser's standing small.'
3. 'Angry people are not always wise.'
4. 'If I loved you less, I might be able to talk about it more.'
5. 'I'm nothing special, in fact I'm a bit of a bore.'
6. 'You pierce my soul. I am half agony, half hope.'

## 7 Chwilfrydig am chwaraeon

1. Ar gwrt pêl fasged arferol, faint o bobl sy'n chwarae mewn tîm ar yr un pryd?
2. P'un o'r chwaraewyr tennis hyn sydd wedi ennill y nifer fwyaf o deitlau Grand Slam yn y senglau i ddynion?
   A: Roger Federer B: Rafael Nadal
   C: Novak Djokovic
3. Beth yw nifer fwyaf y rowndiau y gellir eu cael mewn gornest focsio broffesiynol?
4. Pa dri math o chwaraeon o'r rhestr hon sydd mewn triathlon?: nofio, seiclo, rasio dros y clwydi, rhedeg, gymnasteg, naid hir a chodi pwysau.
5. Pa wlad sydd wedi ennill Cwpan Byd FIFA i ddynion y nifer fwyaf o weithiau?
6. Pa wlad enillodd Bencampwriaeth y Chwe Gwlad Rygbi'r Undeb i Ferched yn 2024?

## 8 Hwyl yr Ŵyl

1. Ym mha sir yn Lloegr cynhelir gŵyl wyllt a blêr Cooper's Hill Cheese-Rolling and Wake?
   A: Swydd Henffordd (Herefordshire)
   B: Swydd Gaerloyw (Gloucestershire)
   C: Caint (Kent)
2. I ddathlu diwedd haf, cynhelir brwydr fwyd fawr yn nhref Buñol, Sbaen. Pa ffrwyth mae pobl yn eu taflu at ei gilydd?
   A: Tomatos B: Grawnwin C: Ffigys
3. Pa wlad yn Ne-ddwyrain Asia sy'n cynnal Gŵyl Bwffe i Fwncis i ddiolch iddynt am ddenu twristiaid?
4. Ffarmwr llaeth yn Lloegr yw Syr Athelstan Joseph Michael Eavis. Pa ŵyl mae'n gydgyfrifol am ei chreu?
5. Ar ba ynysoedd Albanaidd – a elwir yn Sealtainn yng Ngaeleg yr Alban – y cynhelir gŵyl dân Up Helly Aa sy'n cynnwys llong hir Lychlynnaidd?
6. Beth yw enw gŵyl ddiwylliannol fwyaf Ewrop a gynhelir yng Nghymru yn ystod wythnos gyntaf Awst?

# Cwestiynau'r cwis

## Rownd ychwanegol
## Geiriau doeth: diarhebion a dywediadau

**Daw atebion y rownd hon o ddihareb adnabyddus neu ddywediad cyffredin.**

1. **Yn y dywediad poblogaidd, i ble mae'r dŵr yn rhedeg?**
   **A: I'r môr    B: I'r pant    C: Trwy dwll y plwg**

2. **Yn ôl y dywediad am y tywydd "Os daw Mawrth i mewn fel oen, fe aiff allan fel ...". Beth?**

3. **Os yw rhywbeth yn gweithio'n dda, mae pobl yn dweud ei fod yn "rhedeg fel...". Beth?**
   **A: Tap    B: Watsh    C: Trwyn**

4. **Yn ôl un o ganeuon Steve Eaves: "Ymlaen mae..." – Ble?**

5. **Pa fath o ddywediad yw "Mae'n bwrw hen wragedd a ffyn"?**
   **A: Dihareb    B: Idiom    C: Rhywbeth arall**

6. **Yn Diarhebion 26:11 yn y Beibl, mae ffŵl sy'n ailadrodd beth wnaeth e fel ci yn mynd yn ôl at... Beth?**

## Rownd ychwanegol
## Dyfalwch y cymeriad Disney o'r emojis

1. 🐘🎪👂
   **Cliw: Clustiau mawr, bywyd y syrcas.**


2. 🦁👑🌅
   **Cliw: Yr un a fydd yn frenin y Pride Lands.**

3. 🐭🎩🎶🎬
   **Cliw: Mascot gwreiddiol Disney.**

4. 🧚🌿🧙‍♀️🦋
   **Cliw: Tŷ hudolus, ddim yn cael siarad am un ewythr.**

5. 🧠😃😭😡😟
   **Cliw: Emosiynau yn eich pen – mae tyfu i fyny'n anodd.**

6. 🕯️🦁🏰🍽️
   **Cliw: Be our guest!**



# Atebion y cwis



## 1 Pwy sy'n perthyn?

1. **Beth oedd enw brawd hŷn David Attenborough oedd yn enwog fel actor a chyfarwyddwr ffilmiau?**
   Ateb: Richard (Dickie) Attenborough

2. **Roedd tad Jane a Peter Fonda yn actor enwog. Beth oedd ei enw?**
   **A: Harry B: Henry C: Peter Snr**
   Ateb B: Henry

3. **Beth yw enwau'r fam a'r ferch a fu'n cyd-serennu yn *Maid* – y fam yn enwog am *Four Weddings and a Funeral* a'r ferch am *Once Upon a Time in Hollywood*?**
   Ateb: Andie MacDowell a Margaret Qualley

4. **Mae gan y canwr Steve Eaves dri o blant sy'n amlwg yn eu meysydd. Beth maen nhw fwyaf adnabyddus am ei wneud?**
   **A: Newyddiadurwr, awdur a pheldroediwr**
   **B: Cantores, awdur a dylanwadwr**
   **C: Cantores, actores a drymiwr**
   Ateb B: Cantores, awdur a dylanwadwr (Lleuwen, Manon Steffan Ros ac Iwan Steffan)

5. **Pa efeilliaid enwog o fyd ffasiwn fu'n sêr ffilm a theledu pan oedden nhw'n blant ac sydd â chwaer iau a ymunodd â'r Marvel Universe fel Wanda Maximoff?**
   Ateb: Mary-Kate ac Ashley Olsen
   (Elizabeth Olsen yw'r chwaer iau)

6. **Mae Fergus, Farkle a Felicia yn dripledi i bâr enwog mewn nifer o ffilmiau animeiddio. Beth yw enw masnachfraint (franchise) y ffilmiau?**
   Ateb: Shrek

## 2 Rownd haws am gaws?

1. **Ym mha sir yn nwyrain Lloegr mae pentref Stilton a roddodd ei enw i'r caws glas adnabyddus?**
   **A: Swydd Lincoln B: Swydd Caergrawnt**
   **C: Swydd Bedford**
   Ateb B: Swydd Caergrawnt

2. **Beth yw enw'r caws o Ogledd Swydd Efrog y mae'r ddeuawd *claymation* Wallace a Gromit mor hoff ohono?**
   Ateb: Wensleydale

3. **Pa gaws poblogaidd, sy'n cael ei fwyta ledled y byd, sydd wedi'i enwi ar ôl ceunant enwog yn y Mendip Hills yn Lloegr?**
   Ateb: Cheddar

4. **Yn 2017, cyflwynwyd blasau newydd, yn cynnwys Red Leicester, i fath o snac gan Jacob's – Beth yw enw'r snac?**
   Ateb: Mini Cheddars

5. **Pa gaws gwyn briwsionllyd â blas braidd yn siarp gafodd ei enwi ar ôl tref yng Nghwm Rhymni sydd â chastell enwog?**
   Ateb: Caerffili

6. **Mae gan gaws Wookey Hole flas cryf, tebyg i gnau, gan ei fod yn cael ei aeddfedu mewn... beth?**
   **A: Ogofâu B: Selerydd C: Mwg**
   Ateb A: Ogofâu

# Atebion y cwis

## 3 Heb ddŵr heb ddim

1. **Pa un yw cefnfor mwyaf y byd?**
   Ateb: Y Môr Tawel (Pacific)

2. **Pa afon yng ngogledd-ddwyrain Affrica sy'n cael ei chyfrif gan amlaf yn afon hiraf y byd?**
   Ateb: Afon Nîl

3. **Pa un o'r rhain nad yw'n un o'r Llynnoedd Mawr yng Ngogledd America?**
   **A: Huron B: Michigan C: Champlain**
   Ateb C: Champlain

4. **Beth yw enw afon hiraf yr Alban? – mae'n llifo trwy Glasgow.**
   **A: Tay B: Gwy (Wye) C: Clud (Clyde)**
   Ateb C: Clud (Clyde)

5. **Faint o wyneb y ddaear sydd wedi'i orchuddio â dŵr?**
   **A: 51% B: 71% C: 81%**
   Ateb B: 71%

6. **Pa un o'r llynnoedd isod sydd heb ei greu gan bobl?**
   **A: Lake Superior B: Lake Mead C: Lake Nasser**
   Ateb A: Lake Superior

## 4 Cwestiynau cofio

1. **Ym mha flwyddyn ddigwyddodd y protestiadau enwog ond trist o blaid democratiaeth yn Sgwâr Tiananmen, Beijing, Tsieina?**
   **A: 1984 B: 1989 C:1992**
   Ateb B: 1989

2. **Am sawl blwyddyn fuodd Nelson Mandela yn garcharor ar Ynys Robben, Table Bay, De Affrica?**
   **A: 8 B: 18 C: 25**
   Ateb B: 18

3. **Ble yn yr Unol Daleithiau mae pont y Golden Gate?**
   **A: San Francisco B: Efrog Newydd C: San Jose**
   Ateb A: San Francisco

4. **Beth yw enw dinas hynafol yr Incas, yn uchel ym mynyddoedd yr Andes, Periw, sy'n dangos bod gwareiddiad blaengar iawn yn ffynnu yno ymhell yn ôl?**
   Ateb: Machu Picchu

5. **Beth yw enw'r llwyfandir ger Cairo, yr Aifft, lle mae'r pyramidiau a'r Sffincs?**
   Ateb: Giza

6. **Pa fath o wisg nofio sydd wedi'i henwi ar ôl casgliad o ynysoedd yn y Môr Tawel, lle cynhaliodd yr Unol Daleithiau lawer o brofion ar arfau niwclear yn yr 1940au a'r 1950au?**
   Ateb: Bikini

## 5 Byd natur: pysgodyn neu aderyn?

**Dyma rownd i brofi'ch gwybodaeth am bysgod ac adar. Beth yw'r ateb – pysgodyn neu aderyn?**

1. **Mae'r *walleye* neu'r *Sander vitreus* yn greadur melyn sy'n frodorol i'r rhan fwyaf o Ganada a gogledd yr Unol Daleithiau. Pysgodyn neu aderyn?**
   Ateb: Pysgodyn

2. **Mae'r *mahi-mahi*, neu'r *dorado*, yn byw mewn ardaloedd tymherus, trofannol ac isdrofannol ledled y byd. Pysgodyn neu aderyn?**
   Ateb: Pysgodyn

3. **Gogledd yr Alban yw'r unig le ym Mhrydain lle mae'r *whimbrel* yn magu. Mae rhannau uchaf y corff yn frown a'r rhannau isaf yn eithaf gwyn. Pysgodyn neu aderyn?**
   Ateb: Aderyn (Coegylfinir)

4. **Enw arall ar y *John Dory* yw'r *St Pierre*. Pysgodyn neu aderyn?**
   Ateb: Pysgodyn

5. **Cafodd y *pibydd* brith neu'r *willet* ei ddisgrifio'n ffurfiol yn 1789 gan Johann Friedrich Gmelin, naturiaethwr o'r Almaen. Pysgodyn neu aderyn?**
   Ateb: Aderyn

6. **Gwelir y *crawciwr* mewn aberoedd rhwng Massachusetts a Gwlff Mecsico. Pysgodyn neu aderyn?**
   Ateb: Pysgodyn (*Croaker* yn Saesneg)

# Atebion y cwis

## 6 Llenyddiaeth: Austen neu ABBA?

**Ai o waith y nofelydd Jane Austen neu o un o ganeuon ABBA mae'r dyfyniad yn dod?**

1. **'I do not want people to be very agreeable, as it saves me the trouble of liking them.'**
   Ateb: Austen (*Jane Austen's Letters*)

2. **'The winner takes it all, the loser's standing small.'**
   Ateb: ABBA (*The Winner Takes it All*)

3. **'Angry people are not always wise.'**
   Ateb: Austen (*Pride and Prejudice*)

4. **'If I loved you less, I might be able to talk about it more.'**
   Ateb: Austen (*Emma*)

5. **'I'm nothing special, in fact I'm a bit of a bore.'**
   Ateb: ABBA (*Thank You for the Music*)

6. **'You pierce my soul. I am half agony, half hope.'**
   Ateb: Austen (*Persuasion*)

## 7 Chwilfrydig am chwaraeon

1. **Ar gwrt pêl fasged arferol, faint o bobl sy'n chwarae mewn tîm ar yr un pryd?**
   Ateb: 5

2. **P'un o'r chwaraewyr tennis hyn sydd wedi ennill y nifer fwyaf o deitlau Grand Slam yn y senglau i ddynion?**
   **A: Roger Federer B: Rafael Nadal**
   **C: Novak Djokovic**
   Ateb C: Novak Djokovic

3. **Beth yw nifer fwyaf y rowndiau y gellir eu cael mewn gornest focsio broffesiynol?**
   Ateb: 12

4. **Pa dri math o chwaraeon o'r rhestr hon sydd mewn triathlon?: nofio, seiclo, rasio dros y clwydi, rhedeg, gymnasteg, naid hir a chodi pwysau.**
   Ateb: Nofio, seiclo a rhedeg

5. **Pa wlad sydd wedi ennill Cwpan Byd FIFA i ddynion y nifer fwyaf o weithiau?**
   Ateb: Brasil

6. **Pa wlad enillodd Bencampwriaeth y Chwe Gwlad Rygbi'r Undeb i Ferched yn 2024?**
   Ateb: Lloegr

## 8 Hwyl yr Ŵyl

1. **Ym mha sir yn Lloegr cynhelir gŵyl wyllt a blêr Cooper's Hill Cheese-Rolling and Wake?**
   **A: Swydd Henffordd (Herefordshire)**
   **B: Swydd Gaerloyw (Gloucestershire)**
   **C: Caint (Kent)**
   Ateb B: Swydd Gaerloyw (Gloucestershire)

2. **I ddathlu diwedd haf, cynhelir brwydr fwyd fawr yn nhref Buñol, Sbaen. Pa ffrwyth mae pobl yn eu taflu at ei gilydd?**
   **A: Tomatos B: Grawnwin C: Ffigys**
   Ateb A: Tomatos

3. **Pa wlad yn Ne-ddwyrain Asia sy'n cynnal Gŵyl Bwffe i Fwncis i ddiolch iddynt am ddenu twristiaid?**
   Ateb: Gwlad Thai

4. **Ffarmwr llaeth yn Lloegr yw Syr Athelstan Joseph Michael Eavis. Pa ŵyl mae'n gydgyfrifol am ei chreu?**
   Ateb: Glastonbury

5. **Ar ba ynysoedd Albanaidd – a elwir yn Sealtainn yng Ngaeleg yr Alban – y cynhelir gŵyl dân Up Helly Aa sy'n cynnwys llong hir Lychlynnaidd?**
   Ateb: Shetland

6. **Beth yw enw gŵyl ddiwylliannol fwyaf Ewrop a gynhelir yng Nghymru yn ystod wythnos gyntaf Awst?**
   Ateb: Yr Eisteddfod (Genedlaethol)

# Atebion y cwis

## Rownd ychwanegol
## **Geiriau doeth: diarhebion a dywediadau**

**Daw atebion y rownd hon o ddihareb adnabyddus neu ddywediad cyffredin.**

1. **Yn y dywediad poblogaidd, i ble mae'r dŵr yn rhedeg?**
   **A: I'r môr B: I'r pant C: Trwy dwll y plwg**
   Ateb B: I'r pant

2. **Yn ôl y dywediad am y tywydd "Os daw Mawrth i mewn fel oen, fe aiff allan fel ...". Beth?**
   Ateb: Llew (Hynny yw, os yw dechrau'r mis yn fwyn, bydd yn gorffen yn ffyrnig.)

3. **Os yw rhywbeth yn gweithio'n dda, mae pobl yn dweud ei fod yn "rhedeg fel...". Beth?**
   **A: Tap B: Watsh C: Trwyn**
   Ateb B: Watsh

4. **Yn ôl un o ganeuon Steve Eaves: "Ymlaen mae..." – Ble?**
   Ateb: Canaan

5. **Pa fath o ddywediad yw "Mae'n bwrw hen wragedd a ffyn"?**
   **A: Dihareb B: Idiom C: Rhywbeth arall**
   Ateb B: Idiom

6. **Yn Diarhebion 26:11 yn y Beibl, mae ffŵl sy'n ailadrodd beth wnaeth e fel ci yn mynd yn ôl at... Beth?**
   Ateb: Ei chwd / Chwydfa / Cyfog (vomit)

## Rownd ychwanegol
## **Dyfalwch y cymeriad Disney o'r emojis**

1. 🐘🎪👂
   **Cliw: Clustiau mawr, bywyd y syrcas.**
   Ateb: Dumbo (*Dumbo*)


2. 🦁👑🌅
   **Cliw: Yr un a fydd yn frenin y Pride Lands.**
   Ateb: Simba (*The Lion King*)

3. 🐭🎩🎶🎬
   **Cliw: Mascot gwreiddiol Disney.**
   Ateb: Mickey Mouse

4. 🧚🌿🧙🦋
   **Cliw: Tŷ hudolus, ddim yn cael siarad am un ewythr.**
   Ateb: Mirabel (*Encanto*)

5. 🧠😃😭😡😖
   **Cliw: Emosiynau yn eich pen – mae tyfu i fyny'n anodd.**
   Ateb: Riley (*Inside Out*)

6. 🕯️🦁🏰🍽️
   **Cliw: Be our guest!**
   Ateb: Lumière (*Beauty and the Beast*)




## Cwestiynau datglwm

**Sawl gwlad sydd yn Affrica?**
Ateb: 54

**Ym mha flwyddyn rhyddhawyd yr iPhone cyntaf?**
Ateb: 2007

**Pa mor ddwfn yw'r Mariana Trench, y rhan ddyfnaf ym moroedd y byd?**
Ateb: Tua 10,984 metr (36,037 troedfedd)

**Sawl sedd sydd yng Nghynulliad Gogledd Iwerddon?**
Ateb: 90



## Rowndiau ychwanegol

**Eich cwis chi yw hwn ac mae'n gyfle i fod yn ddyfeisgar a chreu eich rownd neu'ch her chi'ch hunan. Mae croeso i chi addasu'r cwis i siwtio'ch noson a'ch cynulleidfa. Dyma rai syniadau i'ch rhoi ar ben y ffordd...**

**Rownd wib – ffaith neu ffug**
Cyflwynwch gyfres o osodiadau, a rhaid i'r timau benderfynu a ydyn nhw'n ffaith neu'n ffug. Mae pob ateb cywir yn ennill pwyntiau, ond gallai atebion anghywir golli pwyntiau.

**Cwestiynau o chwith**
Yn lle gofyn cwestiwn, rhowch yr ateb a gofyn i'r timau feddwl am y cwestiwn cywir. Er enghraifft, gallai'r ateb "Tŵr Eiffel" ddenu'r cwestiwn, "Beth yw'r adeiladwaith enwog ym Mharis a godwyd rhwng 1887 ac 1889?"

**Pwy ydw i?**
Rhowch gyfres o gliwiau am berson neu gymeriad enwog, a gofyn i'r timau ddyfalu pwy ydyw. Gallwch roi un cliw ar y tro, a pho gyflymaf y byddant yn dyfalu, y mwyaf o bwyntiau y byddant yn eu hennill.

**Her anagramau**
Cymysgwch lythrennau enw rhywun enwog, teitl ffilm, neu le, a gofyn i'r timau eu datrys i gael yr ateb cywir.

**Pwy yw pwy mewn llyfrau plant**
Rownd am gymeriadau o lyfrau plant! Gall plant ateb cwestiynau am anturiaethau cymeriadau enwog fel Harry Potter, Sali Mali, neu Matilda. Mae'n berffaith i lyfrbryfed!

**Lliwgarwch:**
Dyma rownd am liwiau! Gallai'r cwestiynau ofyn beth yw lliwiau gwahanol bethau ac anifeiliaid, neu hyd yn oed ddyfalu pwy yw'r enwogion yn ôl eu dewis arferol o liwiau.

**Rownd manion lleol**
**Disgrifiad:** Bydd y rownd hon yn cynnwys cwestiynau am yr ardal lle mae'r noson gwis yn cael ei chynnal. Gallant fod am hanes lleol, tirnodau, pobl nodedig, digwyddiadau, a thraddodiadau neu ffeithiau lleol unigryw. Gall y rownd hon helpu pobl i ddysgu mwy am yr ardal a'i threftadaeth a rhoi elfen bersonol i'r cwis.

**Enghreifftiau o'r cwestiynau**

1. **Hanes lleol**
   **Cwestiwn:** Ym mha flwyddyn y sefydlwyd [enw'r ddinas/dref]?
   **Ateb:** [Blwyddyn]

2. **Tirnodau**
   **Cwestiwn:** Beth yw enw'r cerflun enwog sydd [nodwch ble]?
   **Ateb:** [Enw'r cerflun]

**tearfund.org/quiz**
Tearfund, 100 Church Road, Teddington, TW11 8QE, United Kingdom
+44 (0)20 3906 3906 info@tearfund.org /Tearfund

Registered office: Tearfund, 100 Church Road, Teddington, TW11 8QE. Registered in England: 994339. A company limited by guarantee. Registered Charity No. 265464 (England & Wales) Registered Charity No. SC037624 (Scotland)